# Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

**2011 mccc 1**

**RHAN 5**

GORFODI SAFONAU

**PENNOD 1**

YMCHWILIO I FETHIANT I GYDYMFFURFIO Â SAFONAU ETC

*Rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant D i gydymffurfio*

## 81 Rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant i gydymffurfio

(1) Yn y Mesur hwn, mae cyfeiriadau at fod y Comisiynydd yn rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant D i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol yn gyfeiriadau at fod y Comisiynydd yn gwneud y naill neu'r llall o'r canlynol neu'r naill a'r llall o'r canlynol—

(a) cyhoeddi datganiad yn dweud bod D wedi methu â chydymffurfio â'r gofyniad perthnasol;

(b) cyhoeddi'r adroddiad ar yr ymchwiliad a luniwyd mewn perthynas â'r ymchwiliad i D.

(2) Yn y Mesur hwn, mae cyfeiriadau at fod gofyn i D roi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol yn gyfeiriadau at fod gofyn i D roi cyhoeddusrwydd i unrhyw un neu ragor neu'r oll o'r canlynol—

(a) datganiad bod D wedi methu â chydymffurfio â'r gofyniad perthnasol;

(b) yr adroddiad ar yr ymchwiliad a luniwyd mewn perthynas â'r ymchwiliad i D;

(c) gwybodaeth arall sy'n ymwneud â methiant D i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 81 ddim mewn grym ar Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 156(2)**

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Adran 81. (See end of Document for details)*

**I2** A. 81 mewn grym ar 7.7.2015 gan O.S. 2015/1413, **ergl. 3(c)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Adran 81.